

Pwy greodd y Beibl?
Hanes ffurfio'r canon

Noel Gibbard

Braint fawr yw cael troi at y Beibl a'i ddarllen yn ein hiaith ein hunain. Braint hefyd yw gwybod mai dyma'r Beibl a fwriadodd Duw ar ein cyfer, sef y Beibl sy'n cynnwys tri deg a naw o lyfrau yn yr Hen Destament, a dau ddeg a saith yn y Testament Newydd. Mae'n arwydd o ragluniaeth Duw, oherwydd ffurfiwyd y Beibl dros gyfnod o ganrifoedd, a bu gofal mawr dros ei ffurfio a'i gyfieithu. Ystyr gwreiddiol *canon* oedd 'corsen', ond defnyddiwyd hi fel pren mesur. O gymhwyso hyn at y Beibl, canon yr Ysgrythur yw'r rhestr o lyfrau a gydnabuwyd yn Ysgrythurau Sanctaidd.

Yr Hen Destament

Erbyn cyfnod Iesu Grist roedd yr Hen Destament yn gyflawn. Cawn enghraifft o'i ffordd ef o gyfeirio at yr Hen Destament yn Luc 24: 'Moses a'r holl broffwydi' (ad.25-7), 'Cyfraith Moses, a'r proffwydi a'r salmau' (ad.44). Yn Efengyl Ioan 10:34, cyfeiria'r Iesu at 'eich cyfraith chwi', ac yn Efengyl Mathew 7:12, at yr Hen Destament fel 'y gyfraith a'r proffwydi'. Cyfeiria'r gwahanol ffurfiau at yr Hen Destament fel Ysgrythur neu Ysgrythurau, a'u bod yn Air Duw, fel y dywed yr Iesu yn Ioan 10:35.

Yr apostolion

Mae awdurdod yr apostolion yn ganolog i'r drafodaeth ar y canon. Wrth ddysgu arferent gyfeirio at y ffaith eu bod yn apostolion. Ysgrifennodd Paul at Gristnogion Rhufain fel un wedi ei 'alw i fod yn apostol' (Rhuf. 1:1). Yn ei lythyr at y Corinthiaid, dywed iddo gael ei 'alw', a hynny trwy 'ewyllys Duw' (1 Cor. 1:1). Yr un yn union oedd ymwybyddiaeth Pedr. 'Apostol Iesu Grist' a gyfarchodd y 'dieithriaid sydd ar wasgar' (1 Pedr 1:1). Cawsant eu galw, eu dysgu, a'u danfon i'w gwaith gan yr Arglwydd Iesu ei hunan, a phob un ohonynt wedi gweld y Crist atgyfodedig.

Yn ogystal, rhoddodd Iesu addewid i'r apostolion y byddai'r Ysbryd Glân ei hun yn eu harwain a'u dysgu. Yn Ioan 14:16-17, mae'n addo 'Diddanydd arall' iddynt, hynny yw, un tebyg iddo ef ei hun, a hwnnw yn 'Ysbryd y gwirionedd'. Defnyddia'r un geiriau eto yn Ioan 15:26, ac yn Ioan 16:13, dywed y bydd Ysbryd y Gwirionedd yn eu 'tywys ... i bob gwirionedd'.

O ganlyniad, hawliai'r apostolion awdurdod i'w hysgrifeniadau. Rhybuddiodd Paul ei ddarllenwyr, 'Ond os oes neb heb ufuddhau i'n gair trwy y llythyr yma, nodwch hwnnw' (2 Thes. 3:14 ac 1 Cor. 14:37). Ar ddiwedd Llyfr y Datguddiad, rhybuddiodd Ioan na ddylid tynnu oddi wrth y llyfr, nac ychwanegu ato. Cyfeiriadau at lyfrau unigol yw'r rhain, ond yr un yw agwedd holl ysgrifenwyr y Testament Newydd. Daw hyn i'r amlwg yn 2 Pedr 3: 14-16, lle mae Pedr yn gosod epistolau Paul ochr yn ochr â'r Hen Destament, sef 'yr ysgrythurau eraill'. Byddai'n arferiad i ddanfon y gwahanol lythyrau i'r gwahanol eglwysi (Col.4:16; Dat. 1:11).

Gorffennwyd ysgrifeniadau'r Testament Newydd i gyd cyn diwedd y ganrif gyntaf, rhwng tua 46-50 OC (Iago a Galatiaid), hyd tua 95 OC (Datguddiad).[1] Yn fuan ar ôl gorffen y gwaith o ysgrifennu, ymddangosodd yr Efengylau fel un casgliad; llyfr yr Actau ar wahân, ac Epistolau Paul.